# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Cynllun Cyflawni
## Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

2023 - 2026

Mae'r cynllun hwn yn nodi ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r dull y bydd yr Awdurdod yn ei gymryd dros gyfnod y cynllun i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a gwyrdroi ei ddirywiad.

**This document is also available in English.**

**Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen ar gael drwy gais.**

## Rheoli Dogfen

| Rhif Fersiwn | Diwygiadau a wnaed | Dyddiad |
|---|---|---|
| F1.0 | Dim - Gwreiddiol | Awst 2023 |
| | | |
| | | |
| | | |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | | |

## Cymeradwyaeth y Cyngor

| Rhif Fersiwn | Pwyllgor y Cyngor | Dyddiad |
|---|---|---|
| f1 | Cabinet | Hydref 2023 |

## Cyfrifoldeb am y Cynllun

Dangosir isod y cyfrifoldeb am gyflwyno a diweddaru'r cynllun hwn

| Swyddog y Cyngor | Yn gyfrifol am |
|---|---|
| Swyddog Amgylchedd Strategol | Sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun a diweddaru'r cynllun. |

# 1 Cynnwys

**Rheoli Dogfen** 2

**Cymeradwyaeth y Cyngor** 2

**Cyfrifoldeb am y Cynllun** 2

**2 Cyflwyniad** 1

Pwrpas 1

Cefndir y Cynllun - Bioamrywiaeth 1

**3 Deddfwriaeth, Fframweithiau Cyfreithiol a Chynlluniau / Polisïau Cenedlaethol** 2

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 2

Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2

Targed 30x30 Cynllun Dyletswydd A6 Llywodraeth Cymru: Plymio Dwfn Bioamrywiaeth Cymru 3

Themâu ac argymhellion allweddol 4

Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal 4

Nod A 4

Nod B 5

Nod C 5

Nod D 5

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 6

Cynlluniau a Dogfennau Perthnasol y Cyngor 7

Cynllun Corfforaethol Conwy 2017-2022 7

Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 7

Effeithiau ar Fioamrywiaeth: Cynllun Adolygu a Gweithredu: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 8

Cwmpas 8

**4 Bioamrywiaeth Conwy 9**

**5 Cynllun Gweithredu Cynllun Cyflawni Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau12**

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 25

Nodiadau Eglurhaol 26

# 2 Cyflwyniad

## Pwrpas

Pwrpas y cynllun hwn yw dogfennu ymrwymiad y Cyngor ar draws ei wasanaethau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a gwyrdroi ei ddirywiad. Mae'r cynllun yn dangos sut mae'r Cyngor yn anelu at fodloni ei ddyletswyddau ac yn amlinellu'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau fod camau gweithredu'n cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

## Cefndir y Cynllun - Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn ymwneud â'r amrywiaeth o fywyd gan gynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu helaethrwydd a'r amrywiaeth enynnol. Heb fioamrywiaeth, ni all ein planed oroesi, gan fod natur yn ffurfio rhan o system cynnal bywyd y blaned, sy'n golygu ein bod ni fel bodau dynol yn ddibynnol arno ac yn atebol am oroesiad a chyfoeth bioamrywiaeth. Mae ansawdd ein bywydau bob dydd yn ddibynnol ar wasanaethau mae ecosystemau yn eu darparu yn ein bywydau bob dydd drwy fwyd, dŵr, aer, deunyddiau adeiladu, meddyginiaethau a thirwedd.

Mae gwasanaethau ecosystemau yn darparu nifer o fuddion ac yn gwneud bywyd dynol yn bosibl ac yn werth ei fyw. Caiff y buddion hyn eu categoreiddio fel a ganlyn:

- **Gwasanaethau Darparu -** Cynnyrch diriaethol yr ydym yn eu derbyn gan ecosystemau, gan gynnwys e.e. Bwyd, Ffibr, Adnoddau Genetig, biogemegion, meddyginiaethau naturiol a chynhyrchion fferyllol, adnoddau addurnol

- **Gwasanaethau Rheoledig -** Rheoli hinsawdd drwy brosesau ecosystem gan gynnwys, er enghraifft, ansawdd yr aer, storio carbon, rheoli hinsawdd, rheoli dŵr, rheoli heintiau, rheoli plâu, peillio, rheoli peryglon naturiol

- **Gwasanaethau Diwylliannol -** Buddion anfaterol sydd ynghlwm ag ecosystemau drwy gyfoethogi ysbrydol, datblygiad gwybyddol, myfyrdod, hamdden a phrofiadau estheteg megis gwerthoedd ysbrydol a chrefyddol, iechyd a lles, systemau gwybodaeth, ysbrydoliaeth, gwerthoedd esthetig, cysylltiadau cymdeithasol, hamdden a thwristiaeth, gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol.

- **Gwasanaethau Cefnogaeth -** Pob gwasanaeth sy'n hanfodol er mwyn galluogi ecosystemau i weithredu sy'n sylfaenol i wasanaethau darparu, rheoli a diwylliannol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys: ffurfiant pridd, ffotosynthesis, ailgylchu maethynnau, ailgylchu dŵr

Yn anffodus, mae pobl fel rhywogaeth yn achosi dirywiad bioamrywiol yn sgil effeithiau uniongyrchol bodau dynol - trwy ddiraddio a cholli cynefinoedd, cam-fanteisio'n ormodol, llygredd, newid hinsawdd a rhywogaethau

estron goresgynnol. Nid yw'n syndod felly bod diraddio ecosystemau yn bygwth ein hanghenion mwyaf sylfaenol - **amgylchedd iach i fyw a blodeuo ynddo.**

# 3 Deddfwriaeth, Fframweithiau Cyfreithiol a Chynlluniau / Polisïau Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr holl fuddion sy'n deillio gan blanhigion, anifeiliaid, micro-organeddau a'r llefydd maent yn byw, a'r nod yw gwrthdroi'r dirywiad mewn Bioamrywiaeth yng Nghymru drwy fframweithiau deddfwriaethol.

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Adran 6 o dan Ran 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol fod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn:

- Cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthnedd ecosystemau, cyn belled ag sy'n gyson gydag arfer cywir y swyddogaethau hynny.
- Wrth wneud hynny, ystyried cydnerthedd ecosystemau.
- Paratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi beth mae'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6.
- Cyhoeddi adroddiad, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob tair blynedd wedi hynny, ar beth mae wedi ei wneud i gydymffurfio gyda'r ddyletswydd Adran 6.

Mae cynllun y ddyletswydd Adran 6 yn ffurfio rhan o gyfres o gynlluniau lleol a chenedlaethol sydd gyda'i gilydd yn gyrru gweithrediad yr egwyddorion a'r rhwymedigaethau sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd ymlaen. Tra bod y Cynllun yn canolbwyntio ar rwymedigaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth, mae'n rhaid ei ddarllen yng nghyd-destun y rhaglen hon ar draws Cymru, a chynlluniau a pholisïau eraill Conwy sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, gan fod y rhain i gyd yn effeithio ar ei ddyheadau a chanlyniadau llwyddiannus.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi ei chynllunio i gyd-fynd â nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ddefnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i reoli adnoddau naturiol Cymru. Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithredu'n dda yn darparu datrysiadau naturiol sy'n adeiladu cydnerthedd, sydd yn ei dro yn helpu cymdeithas i greu swyddi, cynnal bywoliaethau a lles dynol, addasu i effeithiau niweidiol newid hinsawdd a chyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy. Am fwy o fanylion am Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gweler Atodiad 1 os gwelwch yn dda.

Rhestrir y prif gynlluniau a pholisïau isod:

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol “Cynllun Adfer Natur Cymru 20-21” ym mis Rhagfyr 2015 gyda’r uchelgais o ‘wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas’. Dyma’r Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a’r Cynllun Gweithredu yng Nghymru. Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn adeiladu ar y fframwaith deddfwriaethol newydd ac yn nodi sut bydd Cymru yn cyflawni ymrwymiadau cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar amrywiaeth fiolegol, y cynllun strategol ar gyfer bioamrywiaeth 2011 – 2020 a’r 2020 o dargedau Aichi cysylltiedig sydd yn fframwaith tymor byr ar gyfer gweithredu, yn ogystal â strategaeth bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd “i arafu’r dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna wrthdroi’r dirywiad hwnnw”.

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn canolbwyntio ar 6 amcan ar gyfer adfer natur yng Nghymru. Mae camau gweithredu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yn cael eu nodi o dan bob amcan.

- Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i fewnoli bioamrywiaeth drwy benderfyniadau ar bob lefel.
- Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd neilltuol a gwella eu rheolaeth
- Amcan 3: Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd
- Amcan 4: Mynd i’r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro
- Amcan 6: Cyflwyno fframwaith lywodraethu a chefnogi ar gyfer cyflenwi

Mae’r camau hyn yn cael eu dyrannu i bartneriaid penodol gan gynnwys cyrff cyhoeddus a phartneriaethau natur lleol yr ystyrir fel partneriaid allweddol ar gyfer cyflawni. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyrff cyhoeddus ystyried seilio eu cynllun dyletswydd Adran 6 ar Gynllun Adfer Natur Cymru. Cyhoeddwyd Cynllun Dyletswydd Adran 6 diweddaraf Llywodraeth Cymru ar-lein ar 20 Rhagfyr 2022.

Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru holiadur rhwng 6 a 21 Gorffennaf 2023 yn casglu barn am Gynllun Adfer Natur Cymru 21-22 er mwyn dysgu gwersi a galluogi datblygiad strategaeth i fodloni gofynion byd-eang ac argymhellion Plymio Dwfn Bioamrywiaeth drwy ddull Tîm Cymru.

## Targed 30 x 30 Cynllun Dyletswydd A6 Llywodraeth Cymru: Plymio Dwfn Bioamrywiaeth Cymru

Yn ystod 2022, gyda grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol, penderfynodd Llywodraeth Cymru blymio’n ddwfn i gefnogi bioamrywiaeth gan ddatblygu cyfres o gamau y gall pob un ohonom eu cymryd yng Nghymru i gefnogi adferiad natur. Dewiswyd y targed 30x30 fel ffocws strategol at ddibenion y plymio dwfn i ystyried ble a sut gellid cyflymu camau gweithredu. Mae 30x30 yn cyfeirio at ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o ddŵr croyw ar y tir a’r môr i gefnogi natur erbyn 2030. Mae’n un o nifer o dargedau sy’n ffurfio rhan o’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd a gytunwyd yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth yr UC yn 2022 (COP15).

Nododd y grŵp themâu allweddol ac argymhellion ar gyfer camau arbennig gan gynnwys cymysgedd o gamau newydd i'w cymryd ar unwaith, datblygu a chyflymu cynlluniau presennol, a chamau mwy hirdymor a fydd yn darparu buddion drwy gydol tymor y Senedd a thu hwnt. Yn ystod Plymio Dwfn Bioamrywiaeth Cymru, cytunodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol a'n Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol (Cynllun Adfer Natur Cymru 20-21 ar hyn o bryd) i adlewyrchu'r argymhellion Plymio Dwfn a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Ôl 2020.

## Themâu ac argymhellion allweddol:

- **i.** Trawsnewid ein cyfres o safleoedd a ddiogelir er mwyn eu gwella, eu hehangu a'u cysylltu'n well
- ii. Y môr (cyflymu'r camau i gwblhau Ardal Forol Warchodedig ecolegol gydlynol)
- **iii.** Creu fframwaith i gydnabod Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur a Mesurau Cadwraeth Eraill yn yr ardal sy'n darparu canlyniadau bioamrywiaeth
- **iv.** Datgloi'r potensial o dirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) er mwyn cefnogi natur
- **v.** Parhau i ddiwygio trefniadau rheoli a chynllunio tir a môr (gan gynnwys rhai gofodol) i ddarparu'n well ar gyfer safleoedd a ddiogelir a moroedd a thiroedd ehangach.
- **vi.** Datblygu sylfaen gref ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol drwy gynyddu gallu, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau
- **vii.** Datgloi buddsoddiad preifat i ddarparu buddion natur yn gynt ac ar raddfa fwy.
- **viii.** Datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30 x 30 a blaenoriaethu camau gweithredu'n unol â hynny
- **ix.** Tîm Arwain Strategol

## Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal

Cytunwyd ar y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal yng Nghynhadledd Bioamrywiaeth yr UC ym mis Rhagfyr 2022 (COP15). Mae gofyn i bob parti, gan gynnwys y DU, ddatblygu Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol i amlinellu eu dull i fodloni'r pedair nod hirdymor a'r 23 o dargedau a amlinellir yn y fframwaith newydd i'w cyflawni erbyn 2030. Amlinellir pedair nod hirdymor y fframwaith isod:

## Nod A

- Bod cyfanrwydd, gwytnwch a chysylltedd ecosystemau yn cael eu cynnal, eu gwella, neu eu hadfer, gan gynyddu arwynebedd yr ecosystemau naturiol yn sylweddol erbyn 2050;
- Bod difodiant rhywogaethau dan fygythiad a achosir gan ddyn yn cael ei atal erbyn 2050, gostwng y

gyfradd ddiflannu a'r perygl i bob rhywogaeth yn aruthrol, a chynyddu'r rhywogaethau gwyllt brodorol i lefelau iach a gwydn;

- Bod yr amrywiaeth enetig o fewn poblogaethau o rywogaethau gwyllt a dof yn cael ei chynnal, gan ddiogelu eu potensial i ymaddasu.

## Nod B

- Bod bioamrywiaeth yn cael ei ddefnyddio a'i reoli mewn modd cynaliadwy ac chyfraniadau natur i ddynoliaeth yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnal a'u gwella, gyda'r rhai sy'n dirywio ar hyn o bryd yn cael eu hadfer. Bydd cefnogaeth i ddatblygu cynaliadwy, er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol erbyn 2050.

## Nod C

- Bod y buddion o ddefnyddio adnoddau genetig, a gwybodaeth ddigidol am adnoddau genetig, a gwybodaeth draddodiadol sy'n gysylltiedig ag adnoddau genetig, yn cael eu rhannu'n deg ac yn gyfartal â phobloedd brodorol a chymunedau lleol, ac wedi cynyddu'n sylweddol erbyn 2050. Bydd gwybodaeth draddodiadol sy'n gysylltiedig ag adnoddau genetig yn cael ei diogelu'n briodol, a thrwy hynny, cyfrannu at gadwraeth a defnydd cynaliadwy o fioamrywiaeth, yn unol â threfniadau mynediad a rhannu buddion a gytunwyd yn genedlaethol.

## Nod Ch


- Bod dulliau gweithredu yn ddigonol, gan gynnwys adnoddau ariannol, cynyddu gallu, cydweithredu technegol a gwyddonol, a mynediad i dechnoleg a'i throsglwyddo i weithredu fframwaith bioamrywiaeth byd-eang Kunming-Montreal yn llawn ac yn deg gan bob parti, yn enwedig gwledydd sy'n datblygu a gwladwriaethau ynysoedd bychain sy'n datblygu, a gwledydd ag economïau mewn cyfnod o drawsnewid. Cau'r bwlch cyllid bioamrywiaeth o $700 biliwn y flwyddyn, ac alinio llifau ariannol â Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal a'r gwaith a elwir yn Weledigaeth 2050 ar gyfer Bioamrywiaeth

**O ystyried y pwysigrwydd, mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weithredu ar unwaith…**

- Mae'n rhaid i Gymru ddarparu degawd o weithredu er mwyn sicrhau ein bod ar drywydd natur cadarnhaol.
- Mae'n debygol y byddwn yn derbyn camau a argymhellir, canllawiau a pholisïau cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru a CNC drwy adolygiad Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ac argymhellion Plymio Dwfn Bioamrywiaeth drwy gydol y cynllun A6 sy'n debygol o ddylanwadu ar gamau priodol y tu hwnt i'r hyn a gytunir yma.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y cyrff cyhoeddus sydd wedi eu rhestru yn y Ddeddf i gyflawni datblygu cynaliadwy er mwyn cyflawni'r saith nod lles. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt arddangos ffyrdd newydd o weithio sy'n dangos eu bod wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.




Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hadnoddau naturiol yn cefnogi'r saith nod lles:

| | |
|---|---|
| *Cymru lewyrchus* | Adnoddau naturiol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gweithgarwch economaidd. Er enghraifft bydd twristiaeth gweithgareddau awyr agored a bywyd gwyllt yn darparu oddeutu 206,000 o swyddi yng Nghymru, ac amcangyfrifir eu bod werth £6.2 miliwn. Yn 2013, daeth dros 3.5 miliwn o ymwelwyr â'n harfordir â £602 miliwn i'r economi, a rhagwelir 10% o dwf. Mae tri Pharc Cenedlaethol yn atynnu 12 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, sy'n gwario £1 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau. |
| *Cymru gydnerth* | Diffinnir Cymru Gydnerth fel cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac sydd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd). |
| *Cymru iachach* | Mae natur yn gwneud cyfraniad sylweddol i iechyd corfforol a lles meddyliol pobl Cymru. Er enghraifft, mae coed yn helpu i amsugno llygryddion a gwella ansawdd yr aer, a phe bai'r system hon yn wael, gallai gael effaith ar iechyd pobl. Mae mynediad at natur a mannau gwyrdd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol. |
| *Cymru sy'n fwy cyfartal* | Mae mynediad cyfartal at natur ac adnoddau naturiol yn cyfrannu at gydraddoldeb yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid yw mynediad wedi ei rannu'n gyfartal (er enghraifft, nid yw pawb yn byw'n agos at fannau gwyrdd, ac mae rhai pobl yn byw mewn ardaloedd lle mae ansawdd aer gwell nag eraill.) |

| | |
|---|---|
| *Cymru o gymunedau cydlynol* | Mae cynnwys cymunedau yn y broses o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn gwella cydlyniant cymunedol ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol . |
| *Cymru â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* | Mae tirluniau wedi chwarae rhan bwysig yn natblygiad arferion diwylliannol penodol, fel technegau adeiladu lleol sy'n dibynnu ar ddeunyddiau lleol, yn ogystal â chelf a llenyddiaeth lleol penodol. |
| *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* | Mae'r amgylchedd yn cyflenwi ein hadnoddau materol ond rhaid i ni sicrhau fel sir ein bod ni ond yn defnyddio ein siâr deg. |

Gan hynny mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd natur a bioamrywiaeth, a bydd gweithio tuag at nodau lles, yn enwedig y nod o Gymru gydnerth, yn helpu gydag amcanion adfer yng Nghymru.

## Cynlluniau a Dogfennau Perthnasol y Cyngor

Mae'r cynllun hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cefnogi dull y Cyngor i fapio natur a gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys: Polisi Coed, Cynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn, Cynllun Rheoli Geifr Gwyllt a chynlluniau rheoli bioamryiwaeth. Ceir crynodeb o gynlluniau allweddol eraill sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cynllun hwn isod.

## Cynllun Corfforaethol Conwy 2017-2022

Gweledigaeth y Cynllun Corfforaethol yw "Conwy – sir flaengar sy'n creu cyfleoedd". I gyflawni'r weledigaeth hon, bydd y Cabinet yn ceisio gwneud Conwy yn Sir ffyniannus, gysylltiedig, teg a chynaliadwy lle mae lles, cydraddoldeb, pryder am yr amgylchedd a'n diwylliant yn sail i benderfyniadau ac yn gwella bywydau. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhestru wyth o ganlyniadau i ddinasyddion gan gynnwys 'Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac egnïol' ac 'Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod yr amgylchedd.' Mae'r angen i weithio'n gynaliadwy hefyd yn cael ei gydnabod fel thema drawsbynciol: 'Ar draws pob maes gwaith, byddwn yn sicrhau ein bod yn anelu at ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol. Ymdrechwn i wneud y penderfyniadau gorau y gallwn wrth wynebu cyfyngiadau ariannol.' Mae'r rhain, a'r canlyniadau eraill i ddinasyddion yn cyd-fynd â'r nodau lles cenedlaethau'r dyfodol a restrir uchod.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gefnogi gan nifer fawr o gynlluniau mwy manwl ac ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Dyletswydd Adran 6 hwn yn un o'r cynlluniau cefnogol hyn, yn cyfrannu'n benodol tuag at y thema drawsbynciol o weithio'n gynaliadwy a'r canlyniad o fod pobl yn byw bywydau iach ac yn gwerthfawrogi a gwarchod yr amgylchedd.

## Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r ddogfen bolisi hon yn manylu'r camau gweithredu y bydd y Cyngor yn eu cyflawni i sicrhau ei fod yn gweithio'n gynaliadwy. Mae'n rhestru nifer o ymrwymiadau amgylcheddol, y mae rhai ohonynt yn uniongyrchol

berthnasol i gyflawni Dyletswydd Adran 6:

- Adnabod a chydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol;
- Cadw a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir;
- Lleihau llygredd aer, dŵr a thir sy'n deillio o weithgareddau'r Cyngor a cheisio lleihau llygredd o ffynonellau eraill;
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn barhaol o faterion amgylcheddol ymysg staff, Aelodau, cyflenwyr, partneriaid a'r gymuned ehangach, gan hyrwyddo manteision bod yn fwy amgylcheddol gyfrifol ac ymddwyn yn fwy cynaliadwy;
- Gwella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaol, gan weithredu amcanion a thargedau i fesur hyn.

## Effeithiau ar Fioamrywiaeth: Cynllun Adolygu a Gweithredu: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Yn 2011 cwblhaodd y Cyngor brosiect gwella bioamrywiaeth i adolygu pa rai o weithgareddau'r cyngor allai fod yn cael effaith ar fioamrywiaeth a pha gamau y gellid eu cymryd i wella perfformiad yn y maes hwn, a pha gyfleoedd oedd yn bodoli i weithredu'n gadarnhaol.  Cwblhawyd y prosiect hwn mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr holl wasanaethau'r cyngor.  Y canlyniad oedd adolygiad a chynllun gweithredu bioamrywiaeth (BRIP) y cytunodd y bwrdd prosiect arno a dyrannwyd y camau gweithredu a nodwyd i'r meysydd gwasanaeth perthnasol i'w gweithredu.

Mae'r canlyniadau a'r camau gweithredu o'r Cynllun Adolygu a Gwella Bioamrywiaeth yn mynd i'r afael â gofynion dyletswydd Adran 6 ac y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw.  Fodd bynnag maent wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru ar gyfer y cynllun hwn yng nghyd-destun cynlluniau sydd wedi eu diweddaru a datblygiadau polisi a strwythurau newydd a ffyrdd newydd o weithio'r Cyngor.  Mae'r camau gweithredu hefyd wedi eu croes gyfeirio gydag amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru.

Cydnabyddir y bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer rhai o argymhellion y  Cynllun Adolygu a Gwella Bioamrywiaeth ac na ellir symud ymlaen â'r rheiny nes bydd cyllid priodol wedi ei sicrhau.

## Cwmpas

Ysgrifennwyd y cynllun mewn ymateb i ddyletswydd gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.   Mae'r Ddeddf yn mynnu fod rhaid i Awdurdodau Lleol geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled a'i fod yn cyd-fynd ag ymarfer eu swyddogaethau yn briodol ac wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. Cyfeirir at y ddyletswydd hon yn y Ddeddf fel y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a chaiff ei chyfeirio ati fel dyletswydd adran 6 neu'r ddyletswydd bioamrywiaeth.

Mae gofyn i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi beth mae'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae gofyniad pellach o dan y ddeddf, fod yn rhaid i bob awdurdod cyhoeddus cyn diwedd 2019, a chyn diwedd pob trydedd blwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar beth maent wedi ei wneud i gydymffurfio gyda dyletswydd Adran 6. Mae'r cynllun yn cyfuno'r ddau ofyniad ac yn ymgorffori adroddiad ar gamau gweithredu cyfredol yn ogystal â chynigion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

# 4 Bioamrywiaeth Conwy



Mae cyfoeth o fywyd gwyllt yng Nghonwy, sy'n byw mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd. Mae'r amrywiaeth o greigiau a phriddoedd, tirffurfiau, wynebweddau ac uchder yn cefnogi amrywiaeth gyfartal o gynefinoedd lled-naturiol, o fariandir alpaidd i borfeydd, coetiroedd, llynnoedd dŵr croyw, nentydd ac afonydd, aberoedd llanwol a chynefinoedd arfordirol, yn ogystal â chynefinoedd wedi'u haddasu o dir pori parhaol a choedwig coniffer wedi'u plannu.

Mae wyth o'r 14 mynydd uchaf yng Nghymru – y rheiny dros 3000 o droedfeddi – yng Nghonwy tra bo'r Afon Conwy, sydd yn rhoi ei henw i'w Fwrdeistref Sirol, yn llifo o lwyfandir rhostir uchel i lawr i dywod Bae Conwy, 20 milltir (33 cilometr) i'r gogledd. Mae'r afon yn llifo drwy briddoedd asidig y rhostir grugog, drwy raeadr dramatig y Graig Lwyd cyn cyrraedd gorlifdir dyffryn gwastad a ffrwythlon i'r gogledd o Fetws-y-Coed, cyn dod yn afon lanw ychydig i'r gogledd o Lanrwst. Mae nodweddion eraill nodedig o'r tirlun sy'n ychwanegu at gyfoeth bioamrywiaeth Conwy yn cynnwys: y gyfres o frigiadau calchfaen sy'n estyn ar hyd yr arfordir o'r ffin â Sir Ddinbych yn Abergele ac yn dod i ben ar bentir godidog Y Gogarth sydd yn frith o fywyd gwyllt; cors bori wastad Morfa Rhuddlan; a thir fferm tonnog helaeth y Fwrdeistref Sirol gyda'i dir pori parhaol, rhwydwaith o wrychoedd a choetiroedd hynafol y dyffrynnoedd, a'r afonydd Elwy, Aled ac Alwen.



Caiff yr holl gynefinoedd uchod eu defnyddio gan anifeiliaid penodol megis eog a sewin yn Afon Conwy; y glöyn byw prin iawn ar y Gogarth – y Glesyn Serennog; telor y coed a gwybedog cefnddu y coetir derw hynafol; boda tinwyn sy'n bridio ar rostir uchel, a'r gylfinir sy'n gaeafu a phïod y môr sy'n ymgynnull i fwyta ar draethellau Traeth Lafan.



Ar yr arfordir, yn yr ardaloedd rhynglanwol a'r dyfroedd bas, ceir cyfoeth o gynefinoedd a bywyd gwyllt. Yn agos at y lan mae tywod rhynglanwol a gwastadeddau llaid, a'r llaid yn cefnogi niferoedd sylweddol o adar hirgoes ac yn y gaeaf mae glannau mwy creigiog yn gartref i arbenigwyr eraill. Y tu hwnt i gyrraedd y llanw mae tywod a cherrig mân isarforol sydd yn cael eu hecsbloetio gan lyngyr gwrychog a molysgiaid dwygragennog, mae'r rhain yn eu tro yn darparu bwyd i nifer fawr o adar y dŵr sy'n plymio.

Yng Nghonwy mae'r llain arfordirol gul yn gartref i 85% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol, sy'n golygu fod y 113,000 o hectarau sy'n weddill yn ardal denau ei phoblogaeth. Mae tua 38% o'r ardal, 4% o'r boblogaeth a'r holl fynyddoedd uchaf yn gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, dim ond ar 15% o'r tir mae cynefinoedd blaenoriaeth (mae hyn yn cynyddu i 36% yn y Parc). A dydy'r ardaloedd hyn sy'n weddill o gynefinoedd hanner naturiol ddim yn ddiogel o bell ffordd. Yng Nghonwy, ar draws Cymru, mae bywyd gwyllt dan fygythiad gan ffyrdd modern o fyw. Mae bygythiadau yn cynnwys datblygiadau newydd a threfoli mewn ymateb i ofynion poblogaeth gynyddol; newydd a threfoli mewn ymateb i ofynion poblogaeth gynyddol; newidiadau mewn arferion ffermio; newidiadau o ganlyniad i newid hinsawdd; gostyngiadau mewn ymateb i waddodi nitrogen o systemau ffermio dwys ac allyriadau eraill; a chaiff y cynefinoedd sydd ar ôl eu darnio'n gynyddol.

Mae dau o brif ddiwydiannau Conwy, amaethyddiaeth a thwristiaeth wedi cydgysylltu'n agos, ac yn ddibynnol ar yr amgylchedd naturiol.  Mae'n hanfodol bod bioamrywiaeth, sydd yn gyfansoddyn allweddol o'r amgylchedd naturiol hwnnw, yn cael ei amddiffyn a'i wella er mwyn parhau i fod yn sylfaen i'n bywydau a'n bywoliaeth.

# 5 Cynllun Gweithredu Cynllun Cyflawni Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Materion, Polisïau, a Chynlluniau Corfforaethol (Cynllun Adfer Natur Cymru, Amcan 6) | | | | | |
| P1 | Sicrhau fod cadwraeth bioamrywiaeth yn cael ei wreiddio fel cydran greiddiol o *Bolisi Amgylcheddol Conwy* | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Gwella Busnes | | |
| P2 | Sicrhau fod effeithiau a chyfleoedd bioamrywiaeth yn cael eu hystyried wrth ddatblygu neu adolygu polisïau, strategaethau, cynlluniau neu raglenni o safbwynt rheoli prosiectau. | Pob un | | | |
| P3 | Ymgorffori cadwraeth bioamrywiaeth i gynlluniau, polisïau a rhaglenni cyfredol. | Pob un<br><br>Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | | | |
| P4 | Sicrhau fod camau gweithredu bioamrywiaeth wedi'u cynnwys yn nhempled y cynllun gwasanaeth | Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol<br><br>Adran yr Amgylchedd, | | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffyrdd a Chyfleusterau | | | |
| P5 | Ystyried datgan Argyfwng Hinsawdd ynghyd â Newid Hinsawdd sy'n diffinio ein cyfnod ni a'r bygythiad mwyaf i'n lles, yn fyd-eang ac yn lleol. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>Democratiaeth | | | |
| P6 | Annog cydnabyddiaeth o bioamrywiaeth fel cydran allweddol o ran cyflawni'r nod cydnerthedd amgylcheddol. | Pawb, dan arweiniad y Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol | Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol | | |
| P7 | CBSC i ddatblygu a darparu mesurau bioamrywiaeth gyda chyrff cyhoeddus, busnesau a grwpiau cymunedol eraill ar draws sir Conwy. | Pob un | | | |
| P8 | Gwella'r synergedd rhwng bioamrywiaeth a phrosiectau amgylcheddol eraill fel EMS Y Ddraig Werdd, y Rhaglen Lleihau Carbon, Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol, Isadeiledd Gwyrdd ac unrhyw fentrau eraill. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>Bwrdd y Rhaglen Werdd<br><br>Gwasanaethau Rheoleiddio | Gwella Busnes<br><br>Mannau Agored (Natur/Cefn Gwlad)<br><br>Perygl Llifogydd<br><br>Cynllunio | | |
| P9 | Adolygu gweithdrefnau mewnol a chynhyrchu canllawiau cynllunio atodol ar gyfer cynllunwyr a datblygwyr i sicrhau fod rhwymedigaethau ac amodau cynllunio sy'n ymofyn | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored<br><br>(Natur / Cefn Gwlad) | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | mesurau i sicrhau fod buddion net bioamrywiaeth yn cael eu bodloni bob amser. | Gwasanaethau Rheoleiddio | Cynllunio / Polisi Cynllunio | | |
| P10 | Sicrhau fod newidiadau wedi'u targedu i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) ynglŷn â budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn cael eu cyhoeddi ddiwedd 2023. Ystyried polisi Cynllunio Datblygu Lleol NTE/3 i gadw a gwella bioamrywiaeth yn briodol lle bo hynny'n berthnasol. | Gwasanaethau Rheoleiddio | Cynllunio | | |
| P11 | Datblygu rhaglen i fabwysiadu'r cyfleoedd i wella cydnerthedd ecolegol tirweddau Conwy a nodir o fewn yr Asesiad Isadeiledd Gwyrdd gan gysylltu â chynlluniau, prosiectau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys y Cynllun Teithio Llesol, polisïau oed a natur, canllawiau cynllunio atodol a phrosiectau a gaiff eu hariannu drwy grantiau. | | | | |
| P12 | Adolygu polisïau caffael a allai gael goblygiadau bioamrywiaeth mewn llefydd eraill | Pob un | Archwilio a Chaffael | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| P13 | Sicrhau fod staff rheng flaen yn cwblhau hyfforddiant diogelu bioamrywiaeth hanfodol bob 3 blynedd. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>Pob un | | | |
| T14 | Ysgrifennu a gweithredu Polisi Coed strategol (gan gynnwys coetir, coed strydoedd, perllannau, gwrychoedd) | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored<br>Polisi Cynllunio | | |
| P15 | Creu tîm Cefn Gwlad/Natur ymarferol a thechnegol i ysgogi gweithrediad y cynllun a gwella safonau cyflawni | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Natur/Cefn Gwlad) | | |
| P16 | Asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio ystadau'r Cyngor y cynigir eu gwaredu i ddarparu bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, Isadeiledd Gwyrdd, Datgarboneiddio, 30x30, rheoli risg Llifogydd Naturiol a nodau strategol Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Lle bo modd, gwireddu hyn drwy gymorth grantiau, dulliau cyllid hirdymor neu brydlesu i'r trydydd sector. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>Economi a Diwylliant | Mannau Agored<br><br>Rheolwr Ystadau ac Asedau | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| P17 | Archwilio cyfleoedd ag adnoddau wrth iddynt godi i fabwysiadu tir neu asedau eraill sy'n gwasanaethu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, Isadeiledd Gwyrdd, Datgarboneiddio, 30x30, rheoli risg Llifogydd Naturiol a nodau strategol Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Natur/Cefn Gwlad) | | |
| Rheoli Safle a Gwarchod Rhywogaeth (Amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru 2 a 4) | | | | | |
| S1 | Sicrhau fod rheolaeth tir y Cyngor yn cynnal ac yn gwella graddau, cyflwr a chysylltedd cynefinoedd a rhywogaethau lled naturiol sy'n bryder cadwraeth a'i fod yn cefnogi ac yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol a Chymru. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>Economi a Diwylliant | Tîm Rheoli Mannau Agored<br><br>Ystadau | | |
| S2 | Sicrhau fod canllawiau a gweithdrefnau arferol i gynnwys ystyriaeth briodol o fioamrywiaeth yn ystod camau cynnar o gynlluniau arfaethedig sy'n effeithio adeiladau, strwythurau, llystyfiant tir a dŵr ar gael i'r holl staff. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad)<br><br>Y Tîm Cyfathrebu<br><br>Tîm Trawsnewid Digidol | | |
| S3 | Datblygu a dogfennu gweithdrefnau gweithredol ar gyfer gweithio ar goed, gwrychoedd a phrysgwydd o safbwynt | Adran yr Amgylchedd, | Tîm Rheoli Mannau | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhywogaeth a warchodir, gwrychoedd pwysig a Gorchmynion Diogelu Coed. | Ffyrdd a Chyfleusterau | Agored | | |
| S4 | Cwblhau asesiadau o gyflwr cynefinoedd sylfaenol ar draws Gwarchodfeydd Natur Lleol y Cyngor i greu cynlluniau rheoli cynefinoedd 5 mlynedd newydd a fydd yn dogfennu gweithdrefnau a gofynion gweithredol ar gyfer rheoli safleoedd natur. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | | | |
| S5 | Datblygu, dogfennu a chyfathrebu calendr ymgysylltu natur â'r cyhoedd fel fframwaith ar gyfer codi ymwybyddiaeth am natur drwy gydol y flwyddyn yn ystod cyfnodau allweddol. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| S6 | Dogfennu a chyhoeddi rhywogaethau ymledol ar wefan y Cyngor. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Tîm Rheoli Mannau Agored | | |
| S7 | Cofnodi a chyhoeddi cofrestr asedau o fio-safleoedd, gerddi synhwyraidd a phyllau. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Tîm Rheoli Mannau Agored | | |
| S8 | Adolygu is-ddeddfau hanesyddol mewn perthynas â thir a reolir gan Fannau Agored i sicrhau fod is-ddeddfau hanesyddol yn adlewyrchu anghenion rheoli cyfredol, gyda'r bwriad o ychwanegu is-ddeddfau i ddiogelu | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Tîm Rheoli Mannau Agored | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | safleoedd o bwysigrwydd ecolegol | | | | |
| S7 | Sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd gwella bioamrywiaeth sy'n codi o gynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Perygl Llifogydd a'r Seilwaith | | |
| S13 | Sicrhau fod staff yn derbyn hyfforddiant priodol a'u bod yn ymwybodol o le i gael canllawiau pellach | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br>Pob un | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad)<br>Tîm Rheoli | | |
| S14 | Darparu cyngor ac / neu hyfforddiant i unrhyw drydydd parti fel bo'n briodol | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| S15 | Archwilio cyfleusterau'r Cyngor o ran y potensial i gefnogi a gwella cadwraeth rhywogaethau a ddiogelir e.e. gosod blychau nythu ar adeiladau priodol. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| S16 | Darparu camau i fodloni'r nod o leihau'r perygl o Blaladdwyr i iechyd pobl a'r amgylchedd gan alinio â'r *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ddefnydd Cynaliadwy o Blaladdwyr (*disgwylir cyhoeddiad gan LYWODRAETH CYMRU ddiwedd 2023) | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella Cynefinoedd ar Ystâd CBSC (Amcan 3 Cynllun Adfer Natur Cymru) | | | | | |
| E1 | Adolygu'r polisi torri gwair i leihau gweithgarwch torri gwair a chynyddu safleoedd bioamrywiaeth ar draws y Sir. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Tîm Rheoli Mannau Agored | | |
| E2 | Nodi a thargedu cyfleoedd cyllido i weithredu mesurau creu, adfer a gwella cynefinoedd ar draws tir a reolir gan y Cyngor. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Pob un | | |
| E3 | Ail ymgeisio am achrediad gwenyn gyfeillgar yn flynyddol a sicrhau fod y camau'n cael eu gweithredu. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| E4 | Parhau i sicrhau fod amcanion a mesurau cadwraeth yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau rheoli'r Faner Werdd a thraethau, ble bynnag bo'n briodol. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| E5 | Annog y staff i fabwysiadu mesurau gwirfoddol i gefnogi bywyd gwyllt yn swyddfeydd a safleoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. | Pob un | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| E6 | Sicrhau fod cyfleoedd ar gyfer gwelliannau bioamrywiol yn cael eu harchwilio bob amser lle cwblheir prosiectau ar safleoedd | Pob un, dan arweiniad Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad)<br><br>Perygl Llifogydd<br><br>Pob Rheolwr Prosiect | | |
| E7 | Datblygu protocol i nodi a rheoli coed hynafol y dyfodol ym mannau agored Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Tîm Mannau Agored (Tîm Coed) | | |
| E8 | Sicrhau fod camau gweithredu a gymerir o safbwynt clefyd coed ynn yn osgoi ac yn lliniaru effaith niweidiol ar fioamrywiaeth gymaint â phosib. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad/Coed) | | |
| Defnyddio a Datblygu Data Bioamrywiaeth (Amcan 5 Cynllun Adfer Natur Cymru) | | | | | |
| D1 | Defnyddio data a gedwir gan Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth i hysbysu gweithgareddau rheoleiddiol a gweithredol CBSC. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| D2 | Parhau i hwyluso'r broses o uwchlwytho data arolygon ecolegol a gyflwynwyd i gefnogi ceisiadau cynllunio a phrosiectau i Cofnod. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| D3 | Cynnwys gofyniad i ymgynghorwyr ecolegol, wedi'i gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gynnal arolygon ecolegol, i gyflwyno'r data i Cofnod. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Ymgynghoriaeth<br><br>Perygl Llifogydd a'r Seilwaith | | |
| D4 | Ystyried cynnal / comisiynu arolwg pellach ar dir Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a flaenoriaethwyd ar gyfer gwell bioamrywiaeth, os byddai'n fuddiol. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| D5 | Monitro nodweddion lliniaru/gwneud iawn mewn perthynas â rhywogaethau a ddiogelir drwy gynlluniau/prosiectau'r Cyngor ar ôl eu cwblhau i ddarparu cylch adborth e.e. clwydydd ystlumod artiffisial / trawsleoli Sabellaria | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Ymgynghorwyr Mannau Agored (Natur/Cefn Gwlad) | | |
| Ymwybyddiaeth, Addysg a Chyngor (Amcan 1 Cynllun Adfer Natur Cymru) | | | | | |
| A1 | Datblygu a dogfennu gweithdrefnau gweithredol mewn perthynas â chynghori ymgeiswyr am faterion gwarchod rhywogaethau wrth gyflawni dyletswyddau rheoleiddio gan gynnwys adolygu gweithdrefnau presennol a datblygu | Gwasanaethau Rheoleiddio | Cynllunio<br><br>Mannau Agored (Tîm | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | a chyhoeddi canllawiau drwy Reoli Adeiladau i ymgeiswyr. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Natur/Cefn Gwlad) | | |
| A2 | Datblygu canolfan wybodaeth ar-lein drwy fewnrwyd a gwefan y Cyngor i ddarparu canllawiau ac i annog ac ymgysylltu'r gymuned ehangach ym mesurau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gadw bioamrywiaeth Conwy. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau<br><br>Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad)<br><br>Y Tîm Cyfathrebu<br><br>Tîm Trawsnewid Digidol | | |
| A3 | Sicrhau bod gweithgareddau gwybodaeth cyhoeddus yn ystyried materion bioamrywiaeth wrth i brosiectau gael eu cwblhau | Gwasanaethau Rheoleiddio<br><br>Pob un | Cynllunio | | |
| A4 | Archwilio ffyrdd o gadw bioamrywiaeth fel mater proffil uchel ar draws safleoedd ac adrannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad)<br><br>Y Tîm Cyfathrebu | | |
| A5 | Cefnogi adrannau'r Cyngor i weithredu camau gwella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau fod cymorth ymarferol ac ymgynghorol yn cael eu darparu. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| A6 | Codi ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth o fewn y gymuned gan gynnwys darparu rhaglen o ddigwyddiadau bywyd gwyllt a defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth a materion cysylltiedig. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad)<br><br>Y Tîm Cyfathrebu | | |
| A7 | Ceisio adnoddau ac archwilio cyfleoedd i alluogi darpariaeth digwyddiadau addysgol ar warchodfeydd natur a reolir gan y Cyngor, yn arbennig ar y Gogarth | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| A8 | Parhau i addysgu cymunedau hamdden perthnasol ynglŷn â sut i osgoi effeithio ar rywogaethau morol ac arfordirol agored i niwed. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Harbyrau | | |
| A9 | Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr a gwirfoddolwyr gyfrannu at reoli cadwraeth natur ac ennill sgiliau a phrofiad. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| Gweithio gyda’r Gymuned (Amcanion 2,3 a 4 Cynllun Adfer Natur Cymru) | | | | | |

| Cyf | Cam Gweithredu | Adran | Adain | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| C1 | Archwilio cyfleoedd i alluogi pob aelod o'r gymuned i wirfoddoli ar warchodfeydd natur, parciau a thraethau lle bo modd a gweithio gyda grwpiau cyfeillion. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |
| C2 | Gweithio mewn partneriaeth lle bo modd i ddarparu enillion bioamrywiaeth drwy brosiectau arbennig drwy barhau i gynnwys a chefnogi grwpiau Cyfeillion a sefydliadau eraill lle bynnag y bo modd a chyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. | Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | Mannau Agored (Tîm Natur/Cefn Gwlad) | | |

# Atodiad 1

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi ei chynllunio i gyd-fynd â nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ddefnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i reoli adnoddau naturiol Cymru. Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n gweithredu'n dda yn darparu datrysiadau naturiol sy'n adeiladu cydnerthedd, sydd yn ei dro yn helpu cymdeithas i greu swyddi, cynnal bywoliaethau a lles dynol, addasu i effeithiau niweidiol newid hinsawdd a chyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem i statud drwy gyfres o egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae 3 prif rhan gyfansoddol i Ran 1 Deddf yr Amgylchedd:

1. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol – Adroddiad a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n rhoi asesiad o adnoddau naturiol a pha mor dda mae Cymru yn eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy.
2. Polisi Adnoddau Naturiol – Polisi a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r polisi yn ystyried canfyddiadau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.
3. Datganiadau Ardal – Sail dystiolaeth leol a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol a sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain (heb eu cyhoeddi eto yn Hydref 2018).

Mae Adran 6 o dan Ran 1 y ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol

1. (1) I awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy arfer ei swyddogaethau o safbwynt Cymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, cyn belled â bod hynny'n gyson ac arfer cywir y swyddogaethau hynny.
2. Wrth gydymffurfio ag isadran (1) rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cydnerthedd ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol -
    a) Amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau;
    b) Cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau;
    c) Maint ecosystemau;
    d) Cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u swyddogaeth);
    e) Gallu'r ecosystemau i addasu.

3. Nid yw isadran (1) yn berthnasol i -
    a) Ymarfer swyddogaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, nac
    b) Ymarfer atebolrwydd barnwrol llys neu dribiwnlys.
4. Wrth gydymffurfio gydag isadran (1) -
    a) Rhaid i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, Gweinidog y Goron ac adran o'r llywodraeth roi sylw i Gonfensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig 1992, a
    b) Rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall roi sylw i unrhyw gyfarwyddyd a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.
5. Wrth gydymffurfio gydag is-adran (1) rhaid i awdurdod lleol ar wahân i Weinidog y Goron neu adran o'r Llywodraeth roi sylw i -
    a) Y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;
    b) Yr adroddiad ar sefyllfa adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;
    c) Unrhyw ddatganiad ardal dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal lle mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau.
6. Rhaid i awdurdod cyhoeddus ar wahân i Weinidog y Goron neu adran o'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi beth mae'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio gydag isadran (1).
7. Mae'n rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob tair blynedd wedi hynny, ar beth mae wedi ei wneud i gydymffurfio gydag isadran (1).
8. Bydd awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun o dan isadran (6)-
    a) yn adolygu'r cynllun o safbwynt pob adroddiad mae'n ei gyhoeddi o dan isadran (7) (mae hyn yn ofynnol), ac
    b) yn gallu adolygu'r cynllun ar unrhyw bryd.

## Nodiadau Eglurhaol

Mae **bioamrywiaeth** yn golygu'r amrywiaeth o greaduriaid byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth, neu ecosystem.

Mae **ecosystemau** yn cynnwys cymunedau o blanhigion ac anifeiliaid, yn ogystal â nodweddion ffisegol anfyw eu hamgylchedd (e.e. daeareg, pridd a hinsawdd) wedi'u plethu gyda'i gilydd fel system ecolegol drwy lif maeth a chylchoedd ynni.

Mae **cydnerthedd ecosystem** yn dibynnu ar:

- Amrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd o fewn a rhwng ecosystemau
- Maint yr ecosystem. Po fwyaf yw hyd a lled ecosystem, y mwyaf y bydd yn gallu ymdopi ag unrhyw aflonyddwch e.e. y mwyaf yw maint cynefin, y mwyaf fydd y poblogaethau o rywogaethau y gall eu cefnogi, felly byddant yn fwy amrywiol yn enetig ac yn llai tebygol o farw allan.

- Cyflwr yr ecosystem. Os yw ecosystem mewn cyflwr gwael bydd dan bwysau a bydd llai o allu ganddo i wrthsefyll, adfer neu addasu i aflonyddwch newydd neu i ddarparu gwasanaethau ecosystem.
- Cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau. Mae hyn fel arfer yn ymwneud â symudiad creaduriaid – o chwilota am borthiant i daenu hadau a genynnau, yn ogystal â symud mewn ymateb i newid hinsawdd. Mae cysylltedd da yn caniatáu ecosystemau i adfer yn haws ar ôl aflonyddwch. Gall cysylltedd gael ei leihau drwy golli neu dorri cynefinoedd, a rhwystrau i symud.
- Mae'r gallu i newid (er enghraifft, newid hinsawdd) yn rhan hanfodol o gydnerthedd gan y gall ganiatáu ecosystemau i addasu i newid, fel newid hinsawdd. Mae'r holl agweddau eraill o gydnerthedd yn ffurfio'r sail sy'n golygu fod addasu llwyddiannus yn gallu digwydd.

# Cyfeiriadau

1. Priority Habitats of Wales, a technical guide, golygwyd gan PS Jones, DP Stevens, TH Blackstock, CR Burrows & EA Howe cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru 2003
2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
3. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
4. Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru
5. Cynllun Corfforaethol Conwy 2017-2002
6. Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy https://www.conwy.gov.uk/en/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Corporate-Plan/assets/documents/Environmental-Policy.pdf